

GWASG PRIFYSGOL CYMRU

CATALOG CYMRAEG



2018



GWASG PRIFYSGOL CYMRU

CYSYLLTU

Gwasg Prifysgol Cymru

Cofrestrfa'r Brifysgol

Rhodfa'r Brenin Edward VII

Caerdydd

Cymru

CF10 3NS

Ffôn: +44 (0) 29 2049 6899

Ebost: gwasg@gwasg.cymru.ac.uk

Gwefan: www.gwasgprifysgolcymru.org

Cyfarwyddwraig: **Natalie Williams**

Rheolwraig Gwerthiant a Marchnata: **Eleri Lloyd-Cresci**

Pennaeth Comisiynu: **Sarah Lewis**

Golygydd Comisiynu, Iaith Gymraeg a Phynciau Cymreig:

Llion Wigley

Rheolwraig Cynhyrchu a Golygu: **Siân Chapman**

CYNNWYS

Llenyddiaeth	1
Celfyddyd, Cerddoriaeth a Drama	35
Crefydd	40
Gwyddoniaeth	44
Athroniaeth	45
Gwleidyddiaeth a Chymdeithas	47
Hanes	49
Llawlyfrau a Chyfeirlyfrau	53
Cyfnodolion	58
Sut i archebu	62

Mae holl fanylion y catalog yn gywir wrth fynd i argraffu (Gorffennaf 2018). O dro i dro, gall ffactorau y tu hwnt i reolaeth y wasg arwain at rai newidiadau, a byddwn yn eich hysbysu o unrhyw newid wrth gadarnhau eich archeb.

Llun y clawr: Bethan Ash, *Spotaholic* (2015), pwyth *collage*. Trwy ganiatâd.

Y MEDDWL A'R DYCHYMYG CYMREIG

Golygyddion y gyfres: John Rowlands (1995–2008) a Gerwyn Williams (2009–17)

Mae'r gyfres hon yn archwilio themâu mewn llenyddiaeth Gymraeg ar hyd yr oesoedd, gan geisio dadlennu natur y meddwl a'r dychymyg Cymreig mewn gwahanol gyd-destunau.

Mae'n cynnig llwyfan i drafodaeth ar rychwant eang o bynciau: o hanesyddiaeth Oes y Tuduriaid i theori feirniadol a llenyddol, o'r berthynas ddiwylliannol rhwng Cymru a'r Unol Daleithiau i'r Gymru gyfryngol gyfoes.

Y GYMRU 'DDU' A'R DDALEN 'WEN'

ARALLEDD AC AMLDDIYLLIANNEDD MEWN FFUGLEN GYMREIG, ER 1990

Lisa Sheppard

CM 9781786831972 • £24.99

eLyfr 9781786831989

Dehongla'r gyfrol hon y portread o amlddiwylliannedd mewn ffuglen Gymreig gan drafod gwaith rhai o awduron Cymraeg a Saesneg mwyaf blaenllaw'r genedl – megis Angharad Price, Llwyd Owen, Tony Bianchi, Charlotte Williams a Dannie Abse – yng ngoleuni damcaniaethau am 'aralldd', sef y gwahaniaeth a ystyrir yn israddol i brif ffrwd gymdeithasol neu ddiwylliannol.

'Mae gobaith cyffrous yn ymdreiddio trwy'r gyfrol bwysig hon, sef y gobaith bod y diwylliant Cymreig, fel yr amlygir hi mewn llên gyfoes Saesneg a Chymraeg, yn cynnig ffordd o feddwl sy'n arwain at dderbyn a chofleidio hybridedd ac amlddiwylliannedd. A hynny nid serch ond oherwydd ei fod yn ddiwylliant dwyieithog – neges amserol iawn.'

Yr Athro Jane Aaron, Prifysgol De Cymru





NID SIANEL GYFFREDIN MOHONI!

HANES SEFYDLU S4C

Elain Price


CM 9781783168880 • £24.99

eLyfr 9781783168897

Dyma'r astudiaeth gyntaf ar hanes blynyddoedd cynnar un o sefydliadau diwylliannol pwysigaf Cymru. Ceir yn y gyfrol ddadansoddiad o'r gwersi y gall hanes y sianel eu cynnig i'w swyddogion cyfredol wrth iddynt fynd ati i'w gosod ar seiliau cadarn ar gyfer dyfodol sy'n ymddangos yn gynyddol ansicr.

'Ar sail ymchwil manwl a thrylwyr, cyfweliadau dadlennol a dehongliad sy'n dangos dealltwriaeth o ysbryd ac amgylchiadau'r cyfnod, mae Elain Price yn cyflwyno hanfod blynyddoedd cynnar cyffrous sefydlu S4C. Dyma gyfrol sy'n cyflwyno a dehongli hanes darlledu o safbwynt ymarferol yn erbyn cefndir gwleidyddol, economaidd a diwylliannol Cymru a'r iaith Gymraeg yn chwarter olaf yr ugeinfed ganrif.'

Euryn Ogwen Williams, cyn-Gyfarwyddwr Rhaglennu S4C



CREITHIAU

DYLANWAD Y RHYFEL MAWR AR
GYMDEITHAS A DIWYLLIANT YNG NGHYMRU

Golygwyd gan Gethin Matthews

CM 9781783168927 • £24.99

eLyfr 9781783168934

Er gwaethaf pwysigrwydd canolog y Rhyfel Mawr yn hanes modern Cymru, prin iawn yw'r gweithiau academiaidd sy'n olrhain dylanwad maleisus a phellgyrhaeddol y rhyfel ar ddiwylliant a chymdeithas yng Nghymru. Amcan y gyfrol hon yw dechrau ar y gwaith o unioni'r cam gyda chyfraniadau gan nifer o ysgolheigion disglair i'n cynorthwyo i ddeall yn well sut y newidiodd y byd Cymreig am byth yn sgil digwyddiadau 1914–18, gan olrhain datblygiadau yng nghymdeithas a diwylliant Cymru o'r cyfnod cyn y rhyfel hyd at y presennol.

'Dyma gyfrol hynod o ddiddorol sy'n bwrw golwg dros amrywiaeth o agweddau ar hanes Cymru a'r Rhyfel Byd Cyntaf mewn ffordd gyffrous ac arloesol. Gwneir cyfraniad aruthrol o bwysig i'n dealltwriaeth o hanes a diwylliant Cymru yn y cyfnod, ac mae'r gyfrol yn fodd priodol iawn o nodi canmlwyddiant y rhyfel.'

Dr Steve Thompson, Prifysgol Aberystwyth

CYFAN-DIR CYMRU

YSGRIFAU AR GYFANNU DWY LENYDDIAETH CYMRU

M. Wynn Thomas


CM 9781786830982 · £24.99

eLyfr 9781786830999

Dyma gasgliad o ysgrifau sy'n archwilio rhai o'r dolennau cyswllt cymhleth a chyfoethog rhwng diwylliannau llên Cymraeg a llên Saesneg Cymru dros ganrif a mw. Mae'r testunau a drafodir yn amrywio o bynciau cyffredinol (tarddiad y syniad fod y Cymry yn genedl gapelog; delweddau Cymru o Ewrop; ei hagwedd at y Taleithiau) i ddadansoddiadau manwl o weithiau unigol (*Gwaed yr Uchelwyr*; *Ymadawiad Arthur*); ac astudiaeth o awduron sydd wedi eu hanwybyddu i raddau helaeth (Pennar Davies; Alun Llywelyn-Williams).

'Cyfres o ysgrifau treiddgar ac ysgogol gan bencampwr yn ei faes. Llwydda M. Wynn Thomas nid yn unig i archwilio posibiladau dychymyg y Cymry, ond trwy ei athrylith feirniadol ei hun i ychwanegu'n sylweddol atynt.'

Yr Athro Angharad Price, Prifysgol Bangor



LLENYDDIAETH

Y Meddwl a'r Dychymyg Cymreig




Y MUDIAD DRAMA YNG NGHYMRU, 1880-1940

Ioan Williams

CM 9780708318324 • £3.99

Dyma'r astudiaeth academiaidd gyntaf o un o fudiadau cymdeithasol pwysicaf y Gymru Gymraeg yn ystod y ddwy ganrif ddiwethaf. Dengys yr awdur sut y taniwyd y mudiad hwn yn negawdau olaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg, o farwydos hen ddiwylliant Calфинаidd Cymru, a disgrifia sut y goleuwyd dychymyg y werin a'i harweinwyr ar hyd ac ar led y wlad.



AR WASGAR

THEATR A CHENEDLIGRWYDD
YN Y GYMRU GYMRAEG, 1979-1997

Roger Owen

CM 9780708317938 • £4.99

Astudiaeth feirniadol o rôl y theatr Gymraeg yng Nghymru rhwng 1979 ac 1997, gyda sylw arbennig i'r modd y cafodd hunaniaeth a chenedligrwydd Cymreig ei adlewyrchu trwy gyfrwng gwaith arbrofol cwmnïau egniïol ar hyd a lled Cymru.

HER A HAWL CYFIEITHU DRAMÂU

SAUNDERS LEWIS, SAMUEL BECKETT A MOLIÈRE

Rhianedd Jewell


CM 9781786830944 • £24.99

eLlyfr 9781786830951

Mabwysiadwyd sawl rôl gan Saunders Lewis yn ystod ei fywyd — athro, gwleidydd, awdur, dramodydd — ac mae ei gyfraniad i'r meysydd amrywiol hyn o bwysigrwydd sylweddol i ddiwylliant, iaith a llenyddiaeth Cymru. Serch hynny, mae un agwedd ar ei fywyd creadigol sydd heb ei ystyried yn fanwl, ac sydd i raddau yn cyfuno holl elfennau eraill ei fywyd personol a phroffesiynol, sef ei waith cyfieithu. Mae'r gyfrol hon yn astudio cyfieithiadau Saunders o ddramâu dau ffigwr hollbwysig mewn llenyddiaeth Ffrangeg, sef Samuel Beckett a Jean-Baptiste Molière. Mae'r astudiaeth yn cyfoethogi ein dealltwriaeth o waith y dramodwyr, gan gynnwys Saunders Lewis ei hun, a'r berthynas sydd yn bodoli rhyngddynt, yn ogystal â chyflwyno'r darlennydd i faes cyfieithu llenyddol.

'Cyn iddo arddel ei ffydd Gatholig neu ganfod ei lais fel gwleidydd a bardd a dramodydd, roedd Saunders Lewis eisoes yn gyfieithydd — a daliodd i droi hyd at drothwy ei bedwar ugain oed. Dengys y gyfrol ddisglair hon pa mor ganolog oedd cydberthynas ieithoedd iddo — a pha mor allweddol y dylai hynny fod i'n dealltwriaeth ohono.'

Dr T. Robin Chapman, Prifysgol Aberswyth



LLENYDDIAETH

Y Meddwl a'r Dychymyg Cymreig




DIFFINIO DWY LENYDDIAETH CYMRU

*Golygwyd gan M. Wynn Thomas a
John Rowlands*

CM 9780708313299 • £9.99

Ceir yn y gyfrol hon ysgrifau gan wyth awdur gwahanol yn trafod y berthynas rhwng llenyddiaeth Gymraeg a llenyddiaeth Saesneg Cymru, gan fynd ati i chwalu'r ffin rhwng llenyddiaethau'r Gymru fodern.



LLENYDDIAETH MEWN THEORI

Owen Thomas

CM 9780708320655 • £9.99

Golwg newydd ar lenyddiaeth Gymraeg ac yn rhoi sylw i bynciau gwleidyddol trwy ddefnyddio'r dulliau a'r syniadau deallusol diweddaraf. Eir i'r afael â rhai o'n prif lenorion, o'r Oesoedd Canol hyd at yr ugeinfed ganrif, mewn modd perthnasol i'r Gymru sydd ohoni. Ymwith y testunau yr ymdrinnir â hwy, trafodir un o gerddi mwyaf Waldo Williams ynghyd â gwaith T. H. Parry-Williams a Dafydd ap Gwilym trwy lygaid newydd.



CASGLU DARNAU'R JIG-SO

THEORI BEIRNIADAETH LENYDDOL

R. M. (BOBI) JONES

Eleri Hedd James

CM 9780708322468 • £12.99

eLyfr 9780708322475

Ysgolhaig o Gymro yw Bobi Jones, yn feistr cydnabyddedig ac amryddawn ym meysydd cerdd dafod, rhyddiaith a beirniadaeth lenyddol, a ddisgrifiwyd gan J. E. Caerwyn Williams fel y 'damcaniaethwr llenyddol mwyaf a welodd llenyddiaeth Gymraeg'. Mae'r gyfrol hon yn darparu crynodeb hwylus o ddamcaniaethau beirniadol Jones ac yn gyflwyniad anhepgor i waith un o feddylwyr Cymraeg mwyaf yr ugeinfed ganrif.



CLEDDYF YM MRWYDR YR IAITH?

Y BWRDD FFILMIAU CYMRAEG

Kate Woodward


CM 9780708325926 • £14.99

eLyfr 9780708325933

Mae'r gyfrol hon yn gwyntyllu hanes un asiantaeth anghofiedig a sefydlwyd yn unsydd er mwyn cynhyrchu ffilmiau Cymraeg. Wrth ddatguddio hanes lliwgar y sefydliad, dadleuir bod ffurfio'r Bwrdd Ffilmiau Cymraeg (1971–86) yn rhan o'r frwydr dros ddiogelu a gwarchod yr iaith Gymraeg a yrrwyd gan ysfa caredigion yr iaith i sicrhau ei pharhad. Gyda ffigyrau cyfrifiadau 1961 ac 1971 yn tystio i ddihoeni graddol niferoedd y siaradwyr Cymraeg, a chyda'r broses ddemocrataidd yn profi'n bur aneffeithlon, roedd sefydlu'r Bwrdd Ffilmiau Cymraeg yn un ymgais arloesol ymhlith nifer i geisio diogelu ac ymrymuso'r iaith trwy ddulliau diwylliannol.

LLENYDDIAETH

Y Meddwl a'r Dychymyg Cymreig



RHWNG GWYN A DU

AGWEDDAU AR RYDDIAITH GYMRAEG Y 1990AU

Angharad Price

CM 9780708317440 • £4.99

Dyma astudiaeth feirniadol ddifyr sy'n ymchwilio i dechnegau llenyddol awduron rhyddiaith Gymraeg y 1990au. Defnyddir gwaith Robin Llywelyn i archwilio'r berthynas rhwng awdur, darllenydd a chymdeithas yn y Gymru gyfoes, a chyfeirir hefyd at lu o awduron eraill yng Nghymru a thu hwnt. Mae'r gyfrol yn gyflwyniad rhagorol i dueddiadau ffuglen ar ddiwedd yr ugeinfed ganrif, ac wrth drafod Robin Llywelyn yn cynnig astudiaeth graff o un o lenorion mwyaf arwyddocaol y Gymraeg yn y 1990au.



FFUGLEN

Y DDELWEDD O GYMRU YN Y NOFEL GYMRAEG
O DDECHRAU'R CHWEDEGAU HYD AT 1990

Enid Jones

CM 9780708321652 • £9.99

Mae *Ffuglen* yn trafod y ddelwedd o Gymru fel y'i cyflwynir mewn detholiad trawiadol o nofelau sy'n darlunio hanes Cymru o'i chyfnodau cynharaf hyd at ddiwedd yr 1980au. Caiff y ddelwedd ei holrhain drwy'r nodweddion megis iaith, tiriogaeth, crefydd, hanes a diwylliant, ac yng nghyd-destun y digwyddiadau hanesyddol a chyfoes penodol a gyflwynir yn y nofelau.



Y SÊR YN EU GRADDAU

GOLWG AR FFURFAFEN
Y NOFEL GYMRAEG DDIWEDDAR

Golygwyd gan John Rowlands

CM 9780708315903 • £9.99

Dyma gasgliad gwerthfawr o astudiaethau beirniadol sy'n mynd i'r afael â datblygiad y nofel Gymraeg wrth gamu o'r milflwydd cyntaf i'r ail. Ceir trafodaethau cynhwysfawr ar weithiau awduron yn cynnwys Angharad Price, Robin Llywelyn a Mihangel Morgan, a chloriannu ar gyflwr y nofel Gymraeg gyfoes.



MEIBION AFRADLON A CHYMERIADAU ERAILL

GOLWG AR Y DYMER DELYNEGOL, 1891–1940

T. Robin Chapman

CM 9780708319208 • £4.99

Mae hon yn gyfrol sy'n astudio'r delweddau a grëir gan feirdd telynegol mewn themâu fel y wlad a'r dref, y ddelwedd o'r Cymro rhadlon, y darlun gwynfydedig o'r plentyn a rôl y ferch, ynghyd â'r Cymry afradlon a ymwrthodai â'r ddelwedd ddelfrydol ac a dorrai'n rhydd o'r baradwys wledig.



O DAN LYGAID Y GESTAPO

YR OLEUEDIGAETH GYMRAEG
A THEORI LENYDDOL YNG NGHYMRU


Simon Brooks

CM 9780708319215 • £4.99

Yr Oleuedigaeth — neu'r Ymoleuad — yn Ewrop y ddeunawfed ganrif yw tarddle llawer o werthoedd cymdeithasol ac athronyddol y Gorllewin heddiw. Dadleua'r gyfrol hon fod Goleuedigaeth genedlaethol wedi digwydd yng Nghymru hefyd ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Eir ati yma i gynnig golwg feirniadol ar oblygiadau syniadol, gwleidyddol a llenyddol y meddwl hwn o safbwynt gwahanol ddeongliadau a gynigir arno ym meirniadaeth lenyddol Gymraeg yr ugeinfed ganrif.

LLENYDDIAETH

Y Meddwl a'r Dychymyg Cymreig



'PE GALLWN, MI LUNIWN LYTHYR'

GOLWG AR WAITH MENNA ELFYN

Rhiannon Marks

CM 9780708326749 • £9.99

eLlyfr 9780708326763

Cyfrl o feimiadaeth lenyddol arbrofol yw hon sy'n cynnig deongliadau amrywiol o waith y bardd Menna Elfyn. Eir ati i arbrofi am y tro cyntaf yn y Gymraeg â dull beimiadaeth epistolaidd, sef cyfres o lythyrau ffuglennol. Dyma hefyd yr astudiaeth estynedig gyntaf o farddoniaeth Menna Elfyn.

'Dyma gyfrl arloesol yn hanes beimiadaeth lenyddol Gymraeg. Astudir gwaith Menna Elfyn trwy gyfrwng cyfres o lythyrau dychmygol oddi wrth Rhiannon Marks, y beimiad llenyddol, at y bardd ei hun ac at fyfyrwraig ifanc o'r enw Martha. Mae 'Pe gallwn, mi luniwn lythyr' nid yn unig yn astudiaeth ffres a chyffrous ar waith un o'n beirdd cyfoes pwysicaf, mae hefyd yn gyfraniad gwreiddiol at ein llên feirniadol — a chreadigol!'

Yr Athro Angharad Price, Prifysgol Bangor



CANON EIN LLÊN

SAUNDERS LEWIS, R. M. JONES AC ALAN LLWYD

Tudur Hallam

CM 9780708321140 • £4.99

Mae'r gyfrl hon yn archwilio datblygiad y cysyniad o lenyddiaeth yn yr iaith Gymraeg o gyfnod Saunders Lewis hyd troad yr unfed ganrif ar hugain. Ymrôdd Saunders Lewis i ddiffinio'r canon llenyddol — 'clasuron yr iaith Gymraeg', chwedl yntau — a neilltuir rhan sylweddol o'r gyfrl yma i astudio'i ddylanwad ar lenyddiaeth Gymraeg, ac ar y brotest a ddaeth yn ddiweddarach yn erbyn y canon hwnnw.


PUR FEL Y DUR

Y GYMRAES YN LLÊN MENYWOD
Y BEDWAREDD GANRIF AR BYMTHYG

Jane Aaron

CM 9780708314814 • £9.99

Ceir yn y gyfrl hon astudiaeth ddifys a dadlennol ar y modd y delweddir y Gymraes yn llenyddiaeth Gymraeg y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Trafodir y ddelwedd a grëwyd ohoni gan ysgrifenywyr y cyfnod, a datgelir gyda hynny lawer am hunaniaeth y Cymry ar adeg a oedd mor arwyddocaol yn hanes y Gymraes.




HWYAID, CWNINGOD A SGWARNOGOD

ESTHETIG RADICAL TWM MORYS,
VÁCLAV HAVEL A BOHUMIL HRABAL

Sioned Puw Rowlands

CM 9780708320501 • £4.99

Mae'r gyfrol hon yn archwilio'r berthynas rhwng yr 'esthetig', ideoleg a'r ysgrifol mewn testunau gan Twm Morys a dau awdur Tsiec, sef y cyn-arlywydd Václav Havel (1936–2011) a Bohumil Hrabal (1914–97), i ddadlau dros ddeinameg yr 'esthetig' mewn termau gwleidyddol.



TIR NEWYDD

AGWEDDAU AR LENYDDIAETH GYMRAEG
A'R AIL RYFEL BYD

Gerwyn Williams

CM 9780708319116 • £4.99

Trafodaeth ar sut y dychmygwyd ac y delweddwyd yr Ail Ryfel Byd gan awduron Cymraeg. Mae'r maes trafod yn ymestyn dros drigain mlynedd ac yn cwmpasu deunydd rhai a gofnododd eu profiadau, yn ogystal â deongliadau ffuglennol a barddol cenedlaethau diweddarach.



SOFFESTRI'R SAESON

HANESYDDIAETH A HUNANIAETH YN OES Y TUDURIAID


Jerry Hunter

CM 9780708316597 • £9.99

Dyma gasgliad o bum ysgrif ysgolheigaidd sy'n cynnig astudiaeth drwyadl o'r modd yr adlewyrchir hanesyddiaeth a hunaniaeth cenedl y Cymry yn llenyddiaeth cyfnod y Tuduriaid, gan gyfeirio'n arbennig at groncl Elis Gruffydd a chywyddau Dafydd Llwyd o Fathafarn.

LLENYDDIAETH

Y Meddwl a'r Dychymyg Cymreig



LLWYBRAU CENHEDLOEDD

CYD-DESTUNOLI'R GENHADAETH
GYMREIG I'R TSALAGI

Jerry Hunter

CM 9780708324714 • £19.99

eLyfr 9780708324721

Dyma gyfrol sy'n cyd-destunoli cenhadaeth Evan James i'r Tsalagi (Cherokee) yn hanner cyntaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg, a hynny trwy graffu ar destunau perthnasol mewn tair iaith — y Gymraeg, y Saesneg a'r iaith Dsalagi — a dehonglir hefyd y modd y trafodwyd brodorion America ar dudalennau gwasg Gymraeg yr Unol Daleithiau. Awgrymir bod y berthynas rhwng Evan Jones a'r genedl frodorol yn stryd ddwyffordd: os oedd y Cymro hwn yn dylanwadu ar y brodorion, roedd diwylliant a bydolwg y Tsalagi yn dylanwadu arno yntau hefyd.




CERDDI ALLTUDIAETH

THEMA YN LLENYDDIAETHAU QUÉBEC,
CATALUNYA A CHYMRU

Paul W. Birt

CM 9780708314258 • £4.99

Dyma astudiaeth feirniadol ar y cyffelybiaethau a'r gwahaniaethau yn llenyddiaethau tair gwlad a welodd wasgfa ddiwylliannol debyg i'w gilydd — Québec, Catalunya a Chymru — ynghyd â dadansoddiad manylach o waith tri llenor blaenllaw o'r gwledydd hynny, sef Gaston Miron, Salvador Espriu a Gwenallt.



GWELD SÊR

CYMRU A CHANRIF AMERICA

Golygwyd gan M. Wynn Thomas

CM 9780708317037 • £4.99

Dyma gasgliad treiddgar o erthyglau sy'n trafod amryfal agweddau ar y berthynas ddiwylliannol rhwng Cymru a'r Unol Daleithiau yn ystod yr ugeinfed ganrif, ym meysydd llenyddiaeth a phensaerniaeth, cerddoriaeth a chelf, iaith a gwleidyddiaeth, ac atgofion personol gan ysgolheigion yn eu meysydd.

CYFAILL PWY O'R HEN WLAD?

GWASG GYFNODOL GYMRAEG AMERICA 1838–1866

Rhiannon Heledd Williams


CM 9781786830586 • £24.99

eLyfr 9781786830593

Dyma gyfrol sy'n ymdrin â hanes Cymry America yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, trwy lygaid y wasg gyfnodol Gymraeg. Cynrychiolai'r cyfnod rhwng 1838 ac 1866 ei hoes aur, ond ychydig iawn o ymchwil sydd wedi darlunio hynt a helynt yr ymfudwyr o Gymru trwy ddefnyddio cyfnodolion fel ffynonellau cynradd, y cyfnodolion fu'n gyfrwng cyfathrebu allweddol i roi llwyfan i'r Cymry drafod pynciau'r dydd yn eu mamiaith.

'Yn archwiliad rhyngddisgyblaethol cyfoethog, treiddgar a dadlennol ar wasg gyfnodol Gymraeg America yn negawdau canol y bedwaredd ganrif ar bymtheg, bydd y gyfrol bwysig hon yn ddarllen hanfodol i unrhyw un sydd â diddordeb yn llenyddiaeth, crefydd, iaith a phrofiadau rhngwladol y Cymry.'

Yr Athro Bill Jones, Prifysgol Caerdydd






CHWILENIWM

TECHNOLEG A LLENYDDIAETH

Golygwyd gan Angharad Price

CM 9780708317235 • £4.99

Dyma gasgliad o dair erthygl ar ddeg gan ysgolheigion yn trafod amryfal agweddau ar lenyddiaeth, yn arbennig y berthynas rhwng llenyddiaeth a thechnoleg, o ddyddiau cynnar argraffu hyd at y cyfnod presennol. Amlygir sut y mae newidiadau chwyldroadol mewn technoleg yn gyfrwng i ledaenu llenyddiaeth i ffurfiau diwylliannol poblogaidd eraill.



DAL PEN RHESWM

CYFWELIADAU GYDAG EMYR HUMPHREYS

Golygwyd gan R. Arwel Jones

CM 9780708315613 • £12.99

Dyma gasgliad o bum cyfweiliad gydag un o lenorion mwyaf amryddawn a thoreithiog Cymru yn ystod yr ugeinfed ganrif.

JAMES KITCHENER DAVIES

DETHOLIAD O'I WAITH

Golygwyd gan Manon Rhys ac M. Wynn Thomas

CM 9780708317259 • £4.99


Ceir yn y gyfrol hon ddetholiad o waith James Kitchener Davies (1892–1952); ysgrifau hunangofiannol, gwleidyddol a llenyddol, stori fer a phedair cerdd, ynghyd â'i weithiau amlycaf – *Cwm Glo*, *Meini Gwagedd a Sŵn y Gwynt sy'n Chwythu*. Ochr yn ochr â'r gweithiau, ceir rhagymadrodd a nodiadau cefndirol cynhwysfawr.


WILLIAMS PANTYCELYN

Saunders Lewis

Rhagymadrodd gan D. Densil Morgan

Un o gyfrolau mwyaf dadleuol yr ugeinfed ganrif yw *Williams Pantycelyn* gan Saunders Lewis, ac ymhlith yr astudiaethau beirniadol mwyaf cynhyrfus i ymddangos erioed yn y Gymraeg. Cynigiodd y gyfrol ffordd newydd i ddehongli athrylith yr emynydd o Bantycelyn, a thrwy hynny sefydlu enw Saunders Lewis fel beirniad mwyaf beiddgar a chreadigol ei genhedlaeth. Er mwyn nodi trichanmlwyddiant geni'r emynydd yn 2017, ail-gyhoeddwyd y gyfrol bwysig hon; mewn rhagymadrodd helaeth i'r cyhoeddiad newydd, mae D. Densil Morgan yn dadansoddi cynnwys y gwaith, ei dafoli'n feirniadol ac yn olrhain ei ddylanwad ar y meddwl Cymreig o'i gyhoeddi yn 1927 hyd heddiw. Mae'n ddathliad deublyg o greadigrwydd Saunders Lewis ac o gyfraniad aruthrol y Pêr Ganiedydd i waddol y diwylliant cenedlaethol.





GAIR AM AIR

YSTYRIAETHAU AM FATERION LLENYDDOL

Gwyn Thomas

CM 9780708315484 • £16.99

Dyma gasgliad darllenadwy o erthyglau, darlithiau ac ysgrifau gan Gwyn Thomas sy'n trafod themâu llenyddol amrywiol o'r Oesoedd Canol hyd at yr ugeinfed ganrif. Ceir penodau unigol ar waith Siôn Cent, Daniel Owen ac R. Williams Parry.



CANHWYLL MARCHOGYON

CYD-DESTUNOLI PEREDUR

*Golygwyd gan Sioned Davies
a Peter Wynn Thomas*

CM 9780708316399 • £4.99

Astudiaeth gynhwysfawr yw hon ar chwedl Peredur sy'n archwilio hanes llawysgrifol, iaith, arddull a chyd-destun cymdeithasol ac Ewropeaidd y gwreiddiol er mwyn taflu goleuni newydd ar chwedlau'r Mabinogion yn gyffredinol.




CYFOETH Y TESTUN

YSGRIFAU AR LENYDDIAETH GYMRAEG
YR OESOEDD CANOL

*Golygwyd gan Iestyn Daniel,
Marged Haycock, Dafydd Johnston
a Jenny Rowland*

CC 9780708318270 • £6.99

Casgliad o bymtheg astudiaeth ddadansoddol dreiddgar o safbwynt iaith, awduraeth a dylanwad y traddodiad lafar ar destunau sy'n seiliedig ar ymchwil trylwyr ysgolheigaidd i farddoniaeth a rhyddiaith Gymraeg yr Oesoedd Canol.



CYDYMAITH I LLENYDDIAETH CYMRU

Golygwyd gan Meic Stephens

CC 9780708313824 • £24.99

Dyma gampwaith Meic Stephens (1938–2018), cyfeirlyfr hanfodol i lenyddiaeth Gymraeg a llenyddiaeth Saesneg Cymru, ac i hanes a diwylliant y wlad. Fe'i disgrifiwyd fel cyfrol ymhlith y 'pwysicaf a gyhoeddwyd yn ein dydd a'n cenhedlaeth' ar ei chyhoeddi yn gyntaf yn 1986. Mae'n cwmpasu'r cyfnod o'r chweched ganrif hyd at ddiwedd yr ugeinfed, ac yn cynnwys cofnodion sy'n gyfoeth o wybodaeth am lenorion a'u gweithiau ynghyd â'r gymdeithas yng Nghymru ar hyd y canrifoedd.



RHYDDID Y NOFEL

Golygwyd gan Gerwyn Williams

CM 9780708315385 • £4.99

Rhwng cloriau'r gyfrol hon ceir yr ymdriniaeth fwyaf cynhwysfawr ar dirlun y nofel Gymraeg. Mae'r penodau, gan arbenigwyr yn eu meysydd, yn cynnwys astudiaethau trwyadl ar bob agwedd o'r nofel Gymraeg, o waith Daniel Owen hyd at nofelau'r 1990au.

CERDD DAFOD

John Morris-Jones

CC 9780708307229 • £9.99

Argraffiad o gampwaith John Morris-Jones, a gyhoeddwyd yn wreiddiol yn 1925. Paratowyd y mynegai i'r argraffiad hwn gan y cyn-Archdderwydd Geraint Bowen.




Y CANU GOFYN A DIOLCH c.1350–c.1630

Bleddyn Owen Huws

CC 9780708314326 • £35.00

Ceir yn y gyfrol hon astudiaeth arloesol a chynhwysfawr o'r cywyddau gofyn a diolch, yr ymdriniaeth gynhwysfawr gyntaf erioed o'r cywyddau hyn fel *genre*. Mae'n gam bras ymlaen yn ein dealltwriaeth o'r cywydd yn gyffredinol fel prif gyfrwng y beirdd proffesiynol Cymraeg o'r Oesoedd Canol diweddar hyd ddechrau'r cyfnod modern.



GRAMADEG CYMRAEG CANOL

D. Simon Evans

CM 9780708313183 • £9.99

Dyma gyfrol awdurdodol gan un a fu ymhlith arbenigwyr mwyaf huawdl y maes, sy'n cynnwys crynodeb o ramadeg Cymraeg Canol rhwng y ddeuddegfed a'r bedwaredd ganrif ar ddeg.




Y TRADDODIAD BARDDOL

Gwyn Thomas

CM 9780708326213 • £12.99

Mewn arweiniad bywiog i farddoniaeth a beirdd y Cymry hyd at gyfnod beirdd yr uchelwyr, llwydda Gwyn Thomas i brofi bod traddodiad o unrhyw werth yn beth byw a chreadigol. Ceir yn y llyfr yma gyflwyniad i nodweddion barddoniaeth y cyfnodau gwahanol yn ein traddodiad, i'r personoliaethau y tu ôl i'r farddoniaeth ac i'r cerddi eu hunain, wedi'u cyfieithu i Gymraeg cyfoes a bywiog. Dyma un o'r llawlyfrau mwyaf poblogaidd a safonol ym maes llenyddiaeth Gymraeg.



ARMES PRYDEIN O LYFR TALIESIN

Golygwyd gan Ifor Williams

CM 9780708316085 • £9.99

Dyma olygiad safonol Syr Ifor Williams ar y gerdd ddarogan enwog o'r ddegfed ganrif a geir yn Llyfr Taliesin, sy'n rhagfynegi goruchafiaeth wleidyddol cenedl y Cymry dros y Saeson. Mae'r gyfrol yn cynnwys y testun golygiedig, nodiadau esboniadol a geirfa, ynghyd â rhagymadrodd ysgolheigaidd gwerthfawr yn trafod cefndir a chynnwys y gerdd. Cyhoeddwyd y golygiad yma yn gyntaf gan Wasg Prifysgol Cymru yn 1955.



BREUDWYT RONABWY

Golygwyd gan Melville Richards

CM 9780708326183 • £13.99

Yn Llyfr Coch Hergest y cadwyd yr unig gopi canoloesol o'r chwedl Arthuraidd *Breudwyt Ronabwy*, a'i hynodwydd yw iddi leoli ei digwyddiadau ym myd breuddwyd yr arwr, dyfais a enghreifftir yma am y tro cyntaf mewn llenyddiaeth Gymraeg. Mae'n chwedl frodorol gymhleth, wedi'i chofnodi mewn arddull addurniedig sy'n cydblethu cymeriadau gwahanol gyfnodau yn hanes Cymru, weithiau'n gwrthgyferbynnu cewri'r gorffennol â dynion bychain oes yr awdur.



CULHWCH AC OLWEN

*Golygwyd gan Rachel Bromwich
a D. Simon Evans*

CM 9780708326190 • £9.99

Culhwch ac Olwen yw un o chwedlau hynaf yr iaith Gymraeg a ddeil yn enghraifft ryfeddol o ddawn ddisgrifiadol a theithi iaith y Cyfarwydd. Yn ystorfa o draddodiadau brodorol, gwelir ynddi fotiffau amlwg chwedlau cydwladol, ac mae i'r chwedl bwysigrwydd Ewropeaidd fel un o'r testunau Arthuraidd hynaf. Ffrwyth gwaith ar destun Syr Idris Foster o'r chwedl yw'r gyfrol hon, a gwbhawyd gan Rachel Bromwich a D. Simon Evans.



HISTORIA PEREDUR VAB EFRAWC

*Golygwyd gan
Glengs Witchard Goetinck*

CM 9780708326206 • £6.99

Un o'r 'Tair Rhamant' yw *Historia Peredur vab Efwrawc*, yn tarddu o'r niwloedd Arthuraidd yn Oes Arwrol y Brythoniaid. Mae i'r stori ieithwedd sy'n ei chysylltu â iaith ac arddull y chwedlau brodorol, yn gwyro ar dro i gadwynau o ansoddeiriau cyfansawdd, a chyfetyb rhywfaint o'i strwythur a'i chynnwys i ramantau mydryddol Chrétien de Troyes yn Ffrangeg y ddeuddegfed ganrif.



Y FERCH YM MYD Y FALED

Siwan M. Rosser

CC 9780708319239 • £9.99

Hon yw'r astudiaeth fanwl gyntaf o'r ferch ym myd y faled, yn ymdrin â'r gwahanol bortreadau o ferched ym maledi'r ddeunawfed ganrif, ac yn trafod baledi sy'n ymwneud ag ystod eang o themâu o fewn cylch profiad merched.



YSTORYA GWLAT IEUAN VENDIGEIT

(LLYTHYR Y PREUTUR SIÔN)

Golygwyd gan Gwilym Lloyd Edwards

CC 9780708315347 • £14.99

Mae hon yn astudiaeth feirniadol ar gyfieithiad Cymraeg o *Ystoria Gwlat Ieuan Vendigeit*, llythyr honedig y Preutur Siôn at Manuel, ymerawdwr Caergystennin, tua 1165. Ceir cyflwyniad i ddau gyfieithiad o'r testun wedi eu codi o lawysgrifau Coleg yr Iesu 119, Peniarth 15, 47 a 267, ynghyd ag ymdriniaeth ar y testun a'i arwyddocâd o fewn tirlun llenyddiaeth Cymru.



TREIGL Y MARCHOG CRWYDRAD

Golygwyd gan D. Mark Smith

CC 9780708317273 • £15.00

Dyma'r argraffiad cyntaf o astudiaeth feirniadol ar *Le Voyage du Chevalier Errant* (1557), alegori Ffrengig a drosgwyd i'r Gymraeg yn niwedd yr unfed ganrif ar bymtheg. Mae'r gyfrol yn cynnwys y testun Cymraeg cyflawn, rhagymadrodd cynhwysfawr sy'n ystyried cyd-destunau hanesyddol, cymdeithasol a llenyddol y testun, ynghyd â nodiadau manwl.

Cymru a'r Chwyldro Ffrengig •
Golygyddion cyffredinol:
Mary-Ann Constantine a Dafydd
Johnston

Y CHWYLDRO FFRENGIG A'R ANTERLIWT

HANES BYWYD A MARWOLAETH BRENIN
A BRENHINES FFRAINC GAN HUW JONES, GLANCONWY

Golygwyd gan Ffion Mair Jones


CM 9780708326497 • £24.99

eLlyfr 9780708326992

Drama werin a oedd yn boblogaidd yng Nghymru ar hyd y ddeunawfed ganrif yw'r anterliwt, a chyhoeddir yma destun sy'n perthyn i ddiwedd y cyfnod hwn. Mae'r hanes a gyflwynir yn dangos dyddiau olaf Brenin a Brenhines Ffrainc, cyn i'w deiliaid godi yn eu herbyn mewn chwyldro ac yna'u dienyddio. Mae'r awdur, Huw Jones, Glanconwy, yn dangos cefnogaeth gref i'r werin bobl a lywiodd y Chwyldro, ynghyd ag atgasedd cryf tuag at y Brenin a'i wraig, ac at y Pab a'i ffydd a fu mor gryf yn Ffrainc yn ystod y frenhiniaeth.

'Fel y tystia ei henw, Chwyldro 1789 a dienyddio Louis XVI a Marie Antoinette yw pwnc yr anterliwt hon. Pabyddiaeth y brenin yw'r bwgan pennaf, a dadleua Huw Jones, Glanconwy, mai awydd ei ddeiliaid i gael gwared ar y Pab a'i dwyll sydd wrth wraidd cyffroadau 1789. Ond ceir yma hefyd ddehongliad gwleidyddol mentrus. Caiff aelodau'r gynulleidfa eu hatgoffa eu bod hwythau yn cynnal dosbarth a oedd yn byw'n fras ac yn ymbesgi ar lafur y bobl gyffredin.'

Dr A. Cynfael Lake, Academi Hywel Teifi, Prifysgol Abertawe





GWAITH DAFYDD BENFRAS AC ERAILL

O FEIRDD HANNER CYNTAF Y DRYDEDD GANRIF AR DDEG

Golygwyd gan N. G. Costigan (Bosco), R. Geraint Gruffydd, Nerys Ann Jones, Peredur I. Lynch, Catherine McKenna, Morfydd E. Owen a Gruffydd Aled Williams

CC 9780708313046 • £14.99

Dyma destun golygiedig mewn orgraff ddiweddar o waith Dafydd Benfras, sef prif fardd llys Gwynedd yn ystod hanner cyntaf y drydedd ganrif ar ddeg, sydd â'i gerddi'n adlewyrchu hanes cythryblus tywysogion Gwynedd ynghyd â throeon ei yrfa faith. Mae'r gyfrol hefyd yn cynnwys gwaith rhai o feirdd eraill y drydedd ganrif ar ddeg, gan gynnwys Einion Wan a Phylip Brydydd.

GWAITH LLYWARCH AP LLYWELYN

'PRYDYDD Y MOCH'

*Golygwyd gan Elin M. Jones
Nerys Ann Jones*

CC 9780708310847 • £14.99

Dyma'r golygiad safonol o ddeg ar hugain o gerddi mawl a marwnad Llywarch ap Llywelyn ('Prydydd y Moch', fl. 1173–1220), yn seiliedig ar draethawd ymchwil Elin M. Jones wedi'i dalfyrru a'i ail-olygu gan Nerys Ann Jones. Ceir hefyd ragymadrodd gwerthfawr a nodiadau manwl ar gefndir a geirfa. Cyhoeddwyd y gwaith yn gyntaf gan Wasg Prifysgol Cymru yn 1988.

GWAITH BLEDDYN FARDD

AC ERAILL O FEIRDD AIL HANNER Y DRYDEDD
GANRIF AR DDEG

Golygwyd gan Rhian M. Andrews, N. G. Costigan (Bosco), Christine James, Peredur I. Lynch, Catherine McKenna, Morfydd E. Owen a Brynley F. Roberts

CC 9780708313466 • £14.99


Hon yw'r gyfrol olaf yng nghyfres Beirdd y Tywysogion. Mae'n cynnwys nodiadau rhagarweiniol, testun golygiedig a thestun mewn orgraff ddiweddar, ynghyd ag aralleiriad a nodiadau manwl ar gyfer yr holl gerddi.

GWAITH DAFYDD AP GWILYM

Golygwyd gan Thomas Parry

CM 9780708313565 • £16.99

Clorian gweithiau Dafydd ap Gwilym, yn cynnwys rhagymadrodd a nodiadau cynhwysfawr safonol yr Athro Thomas Parry, mewn argraffiad o'r llyfr a gyhoeddwyd yn gyntaf gan Wasg Prifysgol Cymru yn 1952.




CERDDI DAFYDD AP GWILYM

*Golygwyd gan Dafydd Johnston,
Huw Meirion Edwards, Dylan Foster
Evans, A. Cynfael Lake, Elisa Moras
a Sara Elin Roberts*

CC 9780708322949 • £40.00

Dyma'r argraffiad cyfoes, hardd a darllenadwy o holl gerddi Dafydd ap Gwilym wedi'u golygu o'r newydd, ynghyd ag aralleiriadau mewn Cymraeg modern gyda nodiadau.



LLÊN YR UCHELWYR

HANES BEIRNIADOL LLENYDDIAETH GYMRAEG
1300–1525

Dafydd Johnston

CM 9781783160525 • £29.99

Dyma astudiaeth fanwl ar lenyddiaeth Gymraeg yr Oesoedd Canol diweddar, yn farddoniaeth ac yn ryddiaith. Hwn oedd cyfnod oes aur y cywydd yn nwylo beirdd fel Dafydd ap Gwilym, Iolo Goch, Guto'r Glyn, Lewys Glyn Cothi a Thudur Aled. Eglurir yn y gyfrol arwyddocâd cymdeithasol y lenyddiaeth mewn cyd-destun hanesyddol, ac ystyrir hefyd ei gwerth arhosol a'i hapêl at y darlennydd cyfoes.




GWAITH LEWYS GLYN COTHI

Golygwyd gan Dafydd Johnston

CC 9780708312537 • £14.99

Mae'r gyfrol hon yn cyflwyno golygiad safonol mewn orgraff fodern o holl waith un o feirdd Cymraeg mwyaf y bymthegfed ganrif, ynghyd â geirfa, mynegeion a rhagymadrodd ar ei fywyd a'i waith.



HYWEL AB OWAIN GWYNEDD

BARDD-DYWYSOG

Golygwyd gan Nerys Ann Jones

CM 9780708321621 • £7.99

Dyma'r cyhoeddiad cyntaf erioed am Hywel ab Owain Gwynedd, y bardd serch a'r tywysog a ysbrydolodd feirdd megis Goronwy Owen, Iolo Morganwg a T. Gwynn Jones. Cafodd ei ladd yn ei flodau gan ei hanner brawd Dafydd ym mrwydr Pentraeth, Sir Fôn, yn 1170. Â'r llyfr hwn y tu hwnt i'r ddelwedd ramantus gan geisio lleoli llais i Hywel a'i ganu mewn cyd-destun gwleidyddol, diwylliannol a hanesyddol Gwynedd y ddeuddegfed ganrif.

DAWN DWEUD

Golygydd y gyfres: Simon Brooks

Cyfes o fywgraffiadau llenyddol yw hon, lle cyflwynir ymdriniaeth feirniadol ar waith awdur ochr yn ochr â gyrfa, bywyd ac ymateb yr awdur i'r byd. Dan yr olygyddiaeth bresennol, mae'r gyfres yn ymdrin fwyfwy â gwaith llenorion cyfoes yn ogystal â ffigyrau llenyddol y gorffennol, gan gyflwyno gwedd newydd i gyfres gydnabyddedig.

HENRY RICHARD


HEDDYCHWR A GWLADGARWR


Gwyn Griffiths

CM 9780708326800 • £7.99

eLyfr 9780708326817

Dadleuir mai Henry Richard oedd heddychwr mwyaf Prydain yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, yr hwn a ddisgrifiwyd gan Lloyd George fel y Cymro mwyaf erioed. Dyma'r gyfrol gyntaf i grynhoi taith bywyd Henry Richard o'i blentynod yn Nhregaron i ferw Llundain, ac i safle o enwogrwydd rhyngwladol, tra yn dal yn driw i'w iaith a gwlad ei febyd. Ceir yn y gyfrol ddetholion o'i areithiau ysgytwol a draddodwyd tra yn aelod seneddol dros Ferthyr ac Aberdâr, ac fel lladmerydd heddychiaeth ledled Ewrop.






DANIEL OWEN

Robert Rhys

CM 9780708313411 • £9.99

Dyma'r cofiant llenyddol modern cyntaf i Daniel Owen (1836–95), y teiliwr a'r nofelydd o'r Wyddgrug, ac un o lenorion mwyaf amryddawn yr iaith Gymraeg. Ceir yma ymdriniaeth ddarllenadwy ar ei gampweithiau llenyddol yng nghyd-destun troeon ei yrfa.



W. J. GRUFFYDD

T. Robin Chapman

CC 9780708312001 • £7.99

Mae'r gyfrol hon yn astudiaeth gyflawn o fywyd a gwaith W. J. Gruffydd, sy'n pwysleisio'r rheswm dros ei ystyried ef yn un o gymeriadau mwyaf arwyddocaol Cymru rhwng y ddau ryfel byd.

JOHN MORRIS-JONES


Allan James


CM 9780708324677 • £19.99

eLyfr 9780708324684

Mae'r bywgraffiad hwn yn cynnig darlun o fywyd a gwaith John Morris-Jones (1864–1929), yr ysgolhaig, y beirniad llenyddol a'r bardd a fu'n ffigwr mor ddylanwadol yn ei ddydd. Defnyddiodd Morris-Jones ei ddarlithiau, y wasg a llwyfan yr Eisteddfod Genedlaethol i gyflwyno nodweddion ei agenda ieithyddol a llenyddol, a oedd yn ddull o geisio ymbellhau oddi wrth safonau amheus y bedwaredd ganrif ar bymtheg. At hynny, ceir golwg ar y dyn teulu yn ogystal wrth graffu ar gyfres o lythrau personol at ei wraig, Mary, ac at ei gyfeillion.

Hon oedd cyfrol fuddugol yr Adran Ffeithiol Greadigol yng nghystadleuaeth Llyfr y Flwyddyn 2012.






W. AMBROSE BEBB

T. Robin Chapman

CC 9780708314265 • £16.99

Dyma'r cofiant llawn cyntaf i Ambrose Bebb (1894–1955), yn seiliedig ar ddyddiaduron a dogfennau teuluol eraill, sy'n cynnig ymdriniaeth feirniadol ar ei ysgrifau creadigol yng nghyd-destun amgylchiadau ei fywyd.



LEWIS MORRIS

Alun R. Jones

CM 9780708319222 • £7.99


Dyma fywgraffiad llenyddol un o ffigyrau amlycaf a mwyaf llachar llên Cymru, Lewis Morris (Llewelyn Ddu o Fôn, 1701–65). Trafodir cymeriad cymdeithasgar ac hyderus Morris, a'i amlochredd rhyfeddol, nodweddion sy'n sicrhau iddo le fel un o feibion hynotaf Cymru. Ceir darlun crwn ohono yma fel llenor, ysgolhaig ac athro barddol, ac yn gefndir i'r cyfan y mae hanes un o'r canrifoedd mwyaf helbulus a chyfoethog a welodd llenyddiaeth Gymraeg erioed.

LEWIS EDWARDS

D. Densil Morgan

CM 9780708321942 · £12.99

Hwn yw'r cofiant mwyaf diweddar i Lewis Edwards (1809–87), yr ysgolhaig a'r addysgwr, a gweinidog anghydfurfiol amlycaf Cymru yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Yma, cawn adroddiad manwl gan yr awdur ar fywyd Edwards, gan gywiro'r camagraffiadau o'i gymeriad a gafwyd yn ystod yr ugeinfed ganrif. Mae hon yn gyfrol werthfawr sy'n cyfrannu at wella ein dealltwriaeth o'r dyn ei hun, hanes Methodistiaeth, a hanes crefydd a diwylliant yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg yng Nghymru.




PENNAR DAVIES

D. Densil Morgan

CM 9780708318348 • £9.99

Hon yw'r gyfrol gyntaf i ymdrin yn farwl â bywyd a gwaith Pennar Davies (1911–96), ac y mae astudiaeth drylwyr yr awdur o gasgliad cyfoethog o ffynonellau yn taflu goleuni newydd ar un o lenorion mwyaf trawiadol yr ugeinfed ganrif.



ISLWYN

Glyn Tegai Hughes

CM 9780708317815 • £9.99

Dyma fywgraffiad un o feirdd mwyaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg, a'r hwn a gyfrir gan lawer ymhlith beirdd mwyaf Cymru erioed. Ceir yn y gyfrol astudiaeth aeddfed o Islwyn (William Thomas, 1832–78), sydd yn ei osod yn ei gymdeithas a'i gyd-destun diwylliannol, cenedlaethol a lleol, ynghyd â'i leoli o fewn cyd-destun Ewropeaidd.




TALHAIARN

Dewi M. Lloyd

CM 9780708315477 • £3.99

Bywgraffiad Talhaiarn (John Jones, 1810–69), bardd ac awdur geiriau caneuon poblogaidd yr oes, datgeinydd cerdd dant ac arweinydd eisteddfodau, yn ogystal â goruchwyliwr pensaernïol a dreuliodd flynyddoedd yn alltud o Gymru.



‘DOC TOM’ THOMAS RICHARDS

Geraint H. Jenkins

CM 9780708315514 • £4.99

Dyma bortread difyr o’r Cardi o hanesydd Thomas Richards (1878–1962), llyfrgellydd ysbrydoledig, darlithydd, beirniad eisteddfodol, darlledwr poblogaidd, a llefarwr unigryw a oedd yn chwedl yn ei oes ei hun.



DWY GYMRAES, DWY GYMRU

HANES BYWYD A GWAITH GWYNETH VAUGHAN A SARA MARIA SAUNDERS

Rosanne Reeves

CM9781783160617 • £12.99

Dyma gyfrol sy'n portreadu bywyd dwy Gymraes uchelgeisiol o gyfnod y 'Ddines Newydd' yn niwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Fel ffeminyddesau brwdfrydig, rhoddwyd eu llenyddiaeth ar waith i ddarbwylllo'r Gymraes na ellir gwella ar gymdeithas heb ei pharodrwydd hi i ddod allan o'i chartref ac ysgwyddo cyfrifoldeb dros ddyfodol ei chenedl.



Y LLAWES GOCH A'R FANEG WEN

Y CORFF BENYWAIDD A'I SYMBOLAETH MEWN FFUGLEN CYMRAEG GAN FENYWOD

Mair Rees

CM9781783161249 • £24.99

eLyfr9781783161256

Mae'r llyfr mentrus hwn yn bwrw golwg ar nofelau a straeon byrion Cymraeg gan fenywod er 1948, gan blethu gwahanol safbwyntiau a theori mewn modd meistrolgar, cwbl newydd ac annisgwyl yn y cyd-destun Cymraeg, i gyflwyno trafodaeth heriol ar lenyddiaeth yn y cyfnod diweddar.

PERFFORMIO'R GENEDL

AR DRYWYDD HYWEL TEIFI EDWARDS

Golygwyd gan Anwen Jones


CM 9781786830340 • £24.99


eLyfr 9781786830357

Mae'r gyfrol hon yn casglu ynghyd ysgrifau a chyfraniadau gan Hywel Teifi Edwards at drafodaeth o'r ddrama a'r theatr yng Nghymru fodern. Mae pob pennod yn defnyddio gwaith Edwards fel man cychwyn ar gyfer trafodaeth feiddgar a blaengar ar amryw agwedd o ddiwylliant perfformio yng Nghymru ddoe a heddiw.

'Dyma gyfrol arloesol ac amheuthun sy'n cynnig cyfres o ymatebion ysgolheigaidd i waith Hywel Teifi Edwards, ac sy'n ehangu'r drafodaeth ar astudiaethau theatr a pherfformiad yn Gymraeg. Tra bod gwaith Edwards yn wybyddus iawn ym maes y Gymraeg, dyma'r llyfr cyflawn cyntaf i hawlio pwysigrwydd ac arwyddocâd i'w waith i astudiaethau theatr a pherfformiad yn benodol.'

Yr Athro Lisa Lewis, Prifysgol De Cymru





CYFAREDD Y CYSGODION

DELWEDDU CYMRU A'I PHOBL AR FFILM, 1935–1951

Gwenno Ffrancon

CM 9780708318331 • £4.99

Dyma astudiaeth gymdeithasol a diwylliannol drylwyr a hynod ddarllenadwy o ddylanwad y sinema ar fywyd pobl Cymru rhwng 1935 a 1951, ac ar y modd y delweddwyd Cymru a'i phobl gan wneuthurwyr ffilm.

DRAMÂU SAUNDERS LEWIS

Y CASGLIAD CYFLAWN II

Golygwyd gan Ioan M. Williams

CC 9780708311837 • £9.99

Dyma ail ran casgliad o ddramâu cyhoeddedig Saunders Lewis, a gyfansoddwyd rhwng 1957–76, ynghyd â rhannau o bedair sgript na chyhoeddwyd cyn hyn. Ceir cyflwyniadau gwerthfawr a nodiadau manwl ar gefndir pob drama â'r gyfeiriadaeth hanesyddol, gwleidyddol a chrefyddol a geir ynddynt.




YSGRIFAU AR THEATR A PHERFFORMIO

*Golygwyd gan Anwen Jones
a Lisa Lewis*

CM 9780708326510 • £9.99
eLyfr 9780708326572

Mae'r llyfr hwn yn cynnig darpariaeth o ysgrifau mewn astudiaethau theatr a pherfformio i fyfyrwyr israddedig. Mae'n trafod amryw o bynciau ac yn ymdrin â'r astudiaeth o theatr a pherfformio fel strwythurau cymdeithasol a chelfyddydol, gan edrych ar ddatblygiad theatr a pherfformio cyfoes, a'i swyddogaeth gelfyddydol a chymdeithasol, ynghyd â chynnig arweiniad ar ddadansoddi drama, cynrychiadau a pherfformiadau byw.




Y THEATR GENEDLAETHOL YNG NGHYMRU

*Golygwyd gan
Hazel Walford Davies*

CM 9780708318898 • £9.99

Dyma'r gyfrol gyntaf i ymdrin â hanes y gwahanol gwmnïau theatr cenedlaethol a sefydlwyd yng Nghymru yn ystod yr ugeinfed ganrif. Ceir pum astudiaeth gan gyfranwyr amrywiol sy'n trafod gwahanol agweddau ar hanes cyffrous y cwmnïau cenedlaethol hynny a fu'n cyfoethogi llwyfannau Cymru yn ystod yr ugeinfed ganrif. Chwaraeodd ffactorau cymdeithasol, gwleidyddol a diwylliannol oll eu rhan yn yr ymgyrch i sefydlu'r cwmnïau cenedlaethol, a thrafodir yr elfennau hyn yn nadansoddiadau'r pum cyfrannwr.



HANES CERDDORIAETH Y GORLLEWIN

Donald J. Grout a Claude V. Palisca

CC 9780708313503 • £9.99

Cyfieithiad o'r gyfrol a gydnabyddir fel y cyflwyniad cynhwysfawr mwyaf awdurdodol i hanes cerddoriaeth gelfyddydol y Gorllewin, sef *A History of Western Music*. Eir ati i olrhain datblygiad cerddoriaeth y Gorllewin o gyfnod yr Hen Fyd hyd at ddiwedd yr ugeinfed ganrif.



DARGANFOD CELF CYMRU

Golygwyd gan Ceridwen Lloyd-Morgan ac Ivor Davies

CM 9780708315330 • £4.99

Dyma gasgliad o astudiaethau ar amrywiol agweddau o hanes y celfyddydau gweledol yng Nghymru gan arbenigwyr yn y maes — Peter Lord, Donald Moore, Megan Morgan Jones a Robyn Tomos ynghyd â'r ddau olygydd. Ceir trafodaeth ar beth yw hanes celf a sut y dylanwedir arno ymhob cyfnod gan syniadau gwleidyddol, diwylliannol a deallusol yr oes.



DELWEDDU'R GENEDL

Peter Lord

CC 9780708315927 • £2.99

650 darlun du a gwyn, a lliw.

Dyma gyfrol cyfres Diwylliant Gweledol Cymru lle y dadansoddir y modd y dylanwadwyd ar yr ymdrechion i ddiffinio Cymreictod trwy gyfrwng delweddau gweledol gan nawdd preifat a ffasiynau estheteg rhwyngwladol. Bu ceisio cyfleu cenedligrwydd y Cymry yn elfen nodweddiadol o'n diwylliant gweledol oddi ar gyfnod y Tuduriaid a'r datblygiad ym maes peintio portreadau. Parhaodd y thema hon trwy gyfnod tirlunwyr y ddeunawfed ganrif, a chyfnod yr arlunwyr gwlad a'r mudiad cenedlaethol ym maes celf yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, hyd at foderniaeth yr ugeinfed ganrif.

CELFYDDYD, CERDDORIAETH A DRAMA

Dramâu'r Byd • Golygydd y gyfres: Gwyn Thomas (1969–1991)



ELECTRA

Soffocles

CM 9780708308721 • £6.00

eLlyfr 9780708322635

Yn y ddrama Roegaidd *Electra* mae marwolaethau a chosbau, cyfiawnder, dial a chariad yn cael eu gosod ger ein bron ym mywydau cymeriadau o'r Hen Fyd. Mae cyfieithiad Euros Bowen o'r testun, ei ragymadrodd iddo a'i nodiadau'n cynnig cyflwyniad craff i un o ddramâu mwya'r byd.



MISS JULIE

August Strindberg

CM 9780708324530 • £3.99

Dyma gyfieithiad Glenda Carr a Michael Burns o ddrama enwog Strindberg, sy'n enghraifft ragorol o theatr naturiolaid y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Mae'n cynnwys hefyd gyfieithiad o ragair gwreiddiol y dramodydd.




Y CLAF DIGLEFYD

Jean-Baptiste Molière

CM 9780708324547 • £3.99

Dyma gyfieithiad Bruce Griffiths o ddrama Jean-Baptiste Molière, 'Le Malade Imaginaire' — drama a berfformiwyd am y tro cyntaf yn 1673. Llwyfanwyd y fersiwn Gymraeg hon gan Gwmni Drama Theatr Fach Llangefnï yn 1969. Mae'r gyfrol yn cynnwys rhagymadrodd a nodiadau helaeth.



CREFYDD A CHYMDEITHAS

ASTUDIAETHAU AR HANES Y FFYDD BROTESTANNAIDD
YNG NGHYMURU, c.1559–1750

John Gwynfor Jones

CC 9780708319505 • £25.00

Cyfrwl yw hon sy'n cloriannu ysgrifau ar wahanol agweddau o dwf y ffydd Brotestannaidd yng Nghymru, o'i dechreuad yn yr unfed ganrif ar bymtheg hyd at flynyddoedd canol y ddeunawfed ganrif. Dangosir sut y bu i newidiadau crefyddol ddylanwadu ar ein cymdeithas — yn genedlaethol ac yn lleol — o ganrif y Tuduriaid hyd at y Diwygiad Methodistaidd, pan oedd yr Eglwys Wladol yn ddiffygiol o ran ei threfniadaeth a'i harweinyddiaeth, a'r mudiad deinamig newydd ynddi yn ennill tir.

RHWNG CALFIN A BÖHME

GOLWG AR SYNIADAETH
MORGAN LLWYD

Goronwy Wyn Owen

CC 9780708317020 • £9.99

Dyma gyfrwl awdurdodol sy'n ymdrin yn dreiddgar â syniadaeth a diwinyddiaeth Galfinaidd Morgan Llwyd; ceir yma astudiaeth o'i gyfundrefn ieithyddol ynghyd â dadansoddiad trwyadl ohoni. Rhoddir sylw manwl ymhlith pynciau eraill i'r Ysgrythurau a'r Ysbryd, Duw a'r Creu, Dyn a'r Cwmp, Person a Gwaith Crist, Iachawdwriaeth, yr Eglwys ac Eschatoleg.


Y FORWYN FAIR, SANTESAU A LLEIANOD

AGWEDDAU AR WYRYFDOD A DIWEIRDEB YNG
NGHYMRU'R OESOEDD CANOL

Jane Cartwright

CM 9780708315149 • £16.99

Dyma gyfrwl arloesol a herfeiddiol sy'n rhoi sylw teilwng i hanes merched yr Oesoedd Canol. Archwilir gwlt y Forwyn Fair a'r santesau yng Nghymru, a hanes yr ychydig leiondai Cymreig, a chyflwynir agweddau ar hanes cymdeithasol, crefyddol, llenyddol a chelfyddydol Cymru'r Oesoedd Canol mewn modd newydd a darllenadwy.



THOMAS CHARLES O'R BALA

Golygwyd gan D. Densil Morgan

CM 9781783160686 • £12.99

eLyfr 9781783160693

Cyfrwl yw hon i ddathlu bywyd a gwaith Thomas Charles o'r Bala (1755–1814), a gyhoeddwyd yn wreiddiol ar achlysur dauganmlwyddiant ei farw. Ni wnaeth neb yn fwy nag ef yn ystod ail hanner y ddeunawfed ganrif i sicrhau fod y Cymry yn genedl lythrennog a darllengar. Roedd Charles yn ogystal yn rhan o rwydwaith eang o arweinwyr crefyddol a oedd yn hyrwyddo'r ddysg feiblaidd yn gydwladol.



CREFYDD, CENEDLGARWCH A'R WLADWRIAETH

JOHN PENRY (1563–1593) A PHIWRITANIAETH GYNNAR

John Gwynfor Jones

CM 9781783161317 • £24.99

eLyfr 9781783161324

Mewn adeg pan eisteddai Elisabeth I ar orsedd Lloegr, aeth John Penry ati i feirniadu'r Eglwys Brotestannaidd a sefydlwyd ganddi hi a'i Senedd yn 1559. Fel Piwritan, ysgrifennodd a chyhoeddodd Penry draethodau beirniadol ar gyflwr yr Eglwys, ac fe'i crogwyd am ei 'droseddau' yn erbyn y Goron ym mis Mai y flwyddyn honno. Fe'i cydnabyddid heddiw yn ferthyr dros grefydd Biwritanaidd yn Lloegr a Chymru.



LLOFFION YM MAES CREFYDD

DIWINYDDIAETH Y BYD CYFOES

Robert Pope

CC 9780708320822 • £9.99

Ceir yn y gyfrol hon ysgrifau ar bynciau crefyddol a diwinyddol yng nghyd-destun y byd cyfoes. Un o nodweddion annisgwyl yr unfed ganrif ar hugain hyd yn hyn yw'r ffaith fod crefydd wedi'i amlygu'n fater o bwysigrwydd cyhoeddus sylweddol. Er i Gymru gynhyrchu toreh o bregethwyr, diwinyddion a gweithiau crefyddol yn y gorffennol, ychydig iawn a gyhoeddwyd yn y Gymraeg sy'n ymateb i'r bwrwm diweddaraf hyn, ac ymaeb i'r diffyg hwnnw a wna'r gyfrol hon.

GWEITHIAU WILLIAM WILLIAMS, PANTYCELYN

Golygwyd gan Gomer Morgan Roberts

CC 9780708302460 • £14.99

Casgliad o weithiau Williams Pantycelyn (1717–91), prif lenor Cymraeg y ddeunawfed ganrif — yn emynydd, llenor a bardd, ac awdur bron i ddeg a phedwar ugain o gyhoeddiadau. Cynhwysir nifer helaeth ohonynt yn y gyfrol hon, sy'n arddangos mawredd Pantycelyn yn y cyd-destun Methodistaid.

CEDYRN CANRIF

CREFYDD A CHYMDEITHAS YNG NGHYMRU'R UGEINFED GANRIF

D. Densil Morgan

CM 9780708317204 • £4.99

Yn y gyfrol gyfoethog ac arloesol hon, darlunia'r awdur ymateb rhai o wŷr mwyaf dylanwadol y bywyd crefyddol yng Nghymru i'r her a'r argyfwng a wynebodd grefydd sefydliadol, a chymdeithas yn gyffredinol, yn ystod canrif gythryblus. Ceir yma bortreadau o ffigyrau adnabyddus, megis Lewis Valentine, J. E. Daniel, Pennar Davies ac R. Tudur Jones, ac eraill sy'n llai cyfarwydd er yn arwyddocaol yn eu cyfnod a'u meysydd, megis D. Cynddelw Williams, Timothy Rees ac Ivor Oswy Davies.

CRISTNOGAETH A GWYDDONIAETH

Noel A. Davies a T. Hefin Jones

CM 9781786831262 • £16.99


eLlyfr 9781786831279

Mae'r gyfrol hon yn ystyried rhai o'r cwestiynau pwysicaf sy'n wynebu ffydd Gristnogol heddiw. A fedrir credu mewn Duw sy'n greawdwr, tra yn derbyn damcaniaeth y glec fawr? A oes ystyr a diben i fywyd yn gyffredinol, a'r bywyd dynol yn benodol, os ydym am gymryd Darwin a geneteg gyfoes o ddifrif? A ydyw'r datblygiadau rhyfeddol ym myd meddygaeth yn herio awdurdod Duw dros y bywyd dynol? A ydyw argyfwng ecolegol ein cyfnod ni yn tansellio cred mewn llywodraeth Duw dros y cosmos? Mewn geiriau eraill, a ydyw'n bosibl bod yn deyrngar i'r ffydd Gristnogol tra'n coleddu prif ddamcaniaethau gwyddoniaeth gyfoes?

'Dyma gyfrol eglur, amserol a deallus a fydd o gymorth i'n goleuo yn y pwnc dan sylw. Pan fo pegynnu enbyd yn digwydd rhwng credinwyr ac anghredinwyr, ac yn aml iawn rhwng credinwyr a'i gilydd ar union natur y berthynas rhwng crefydd a gwyddoniaeth, mae'n dda cael arweiniad cadarn yn y maes. Mae pob pennod yn academaidd gyfrifol, yn ffrwyth hir fyfyrddod ar y mater mewn llaw, ac yn cynnig maeth i'r meddwl a'r ysbryd. Amheuthun yw cael cyfrol fel hon yn Gymraeg.'

Yr Athro Emeritws D. Densil Morgan,


Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant



GWYDDONWYR CYMRU

Golygydd y gyfres: Gareth Ffowc Roberts

O'r Oesoedd Canol hyd heddiw mae gan Gymru hanes hir a phwysig o gyfrannu i ddarganfyddiadau a menter wyddonol a thechnolegol. O ysgolheigion canoloesol i wyddonwyr a pheirianwyr cyfoes, mae Cymry wedi bod yn flaenllaw yn yr ymdrech i ddeall a rheoli'r byd o'n cwrpas. Mae gwyddoniaeth wedi chwarae rôl allweddol o fewn diwylliant Cymreig am ran helaeth o'n hanes fel cenedl: roedd y beirdd llys yn tynnu ar syniadau gwyddonol yn eu barddoniaeth; roedd gan wŷr y Dadeni ddiddordeb brwd yn y gwyddorau naturiol; ac roedd emynau arweinwyr cynnar Methodistiaeth Gymreig yn llawn cyfeiriadau gwyddonol. Blodeuodd cymdeithasau gwyddonol yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg, a thrawsfurfiwyd Cymru gan beirianeg a thechnoleg; bu gwyddonwyr Cymreig yn ddylanwadol mewn sawl maes gwyddonol a thechnolegol yn yr ugeinfed ganrif hefyd. I raddau helaeth iawn, mae'r hanes gwyddonol Cymreig cyffrous hwn wedi hen ddiflannu, ond mae'r gyfres ddwyieithog hon yn tanlinellu cyfraniad gwyddoniaeth a thechnoleg yn hanes Cymru. Mae cyfrolau'r gyfres yn olrhain gyrfaoedd a champau gwyddonwyr Cymreig, ac yn gosod eu gwaith o fewn cyd-destun diwylliannol gan ddangos sut y cyfrannodd gwyddonwyr a pheirianwyr at greu'r Gymru fodern, yn ogystal â sut y mae Cymru wedi chwarae rhan hanfodol yn natblygiad gwyddoniaeth a pheirianeg fodern.



EVAN JAMES WILLIAMS

FFISEGYDD YR ATOM

Rowland Wynne

CM 9781786830722 • £16.99

eLlyfr 9781786830739

Dyma gyfrol sy'n darlunio bywyd a gwaith yr Athro Evan James Williams, un o'r gwyddonwyr mwyaf galluog a welodd Cymru erioed. Bu'n rhan o chwyldro ffiseg degawdau cyntaf yr ugeinfed ganrif, a chydweithiodd gyda'r arloeswyr (nifer ohonynt yn enillwyr gwobr Nobel) wrth wneud cyfraniadau nodedig ym maes gwrthdrawiadau atomig ac yn narganfyddiad gronyn elfennol newydd. Amlygir ei alluoedd di-gymar rhwng cloriau'r gyfrol hylaw hon, a chyflwynir yn ogystal ddarlun o gymeriad hoffus a thwymgalon na gollodd ei ymlyniad na'i gariad tuag at fro ei febyd a'i ddiwylliant.

CREDOAU'R CYMRY

YMDDIDDANION DYCHMYGOL AC ADLEWYRCHIADAU
ATHRONYDDOL


Huw L. Williams


CM 9781783168804 • £19.99
eLyfr 9781783168811

Trwy ymdriniaeth wreiddiol a gafaelgar â rhai o ffigyrau adnabyddus Cymru, mae Huw L. Williams yn amlygu nifer o gredoau sydd wedi bod yn ddylanwadol yng Nghymru a thu hwnt. Cyflwynir trafodaethau gwleidyddol, moesol a diwinyddol ar ffurf ymddiddanion dychmygol, gyda sylwebaeth athronyddol ar elfennau canolog yr athrawiaethau hynny, mewn cyfrol sy'n rhoi sylw priodol i sylwedd athronyddol y traddodiad deallusol ac yn cynnig dathliad o'n credoau fel cenedl.

'Mewn cyfrol arloesol sy'n trafod daliadau meddylwyr Cymreig o'r Oesoedd Tywyll hyd at yr ugeinfed ganrif, mae'r awdur yn gofyn a oes gennym fel Cymry draddodiad syniadol. Mewn modd heriol a hynod fywiog, fe'n cyflwynir i ddadleuon y gorffennol cyn i'r awdur fynd ati i'w cloriannu'n fedrus — mae ei ddawn fel addysgwr yn sicrhau y bydd ystod eang iawn o ddarllenwyr yn cael boddhad ac ymoleuad wrth ddarllen ei lyfr.'

E. Gwynn Matthews






HANES ATHRONIAETH Y GORLLEWIN

Golygwyd gan John Daniel a Walford L. Gealy

CC9780708321829 • £14.99

Mae'r gyfrol hon yn cyflwyno hanes athroniaeth y Gorllewin, o gyfnod y Groegiaid hyd at yr ugeinfed ganrif, mewn un gyfrol. Wrth drafod syniadau'r athronwyr mawr yn eu trefn gronolegol — o Thales, a oedd yn byw yn y chweched ganrif cyn Crist, hyd at Karl Popper, a fu farw yn 1994 — mae ysgrifau'r gyfrol gan ysgolheigion amlwg a rhyngwladol y Gymru ddiweddar yn cyflwyno safbwyntiau sy'n cyffwrdd meysydd seicoleg, cymdeithaseg, gwleidyddiaeth, crefydd, hanes a llenyddiaeth. Dyma gloriannu'r byd syniadau yn gyffredinol ac athroniaeth yn benodol.



ARISTOTELES: BARDDONEG

Addaswyd a chyfieithwyd gan J. Gwyn Griffiths

CM9780708317181 • £8.99

Dyma gyfieithiad Cymraeg rhagorol J. Gwyn Griffiths o draethawd mawr yr athronydd Groegaidd Aristoteles ar farddoniaeth, ynghyd â rhagymadrodd sylweddol a nodiadau manwl. Cyhoeddwyd y cyfieithiad yma'n gyntaf gan Wasg Prifysgol Cymru yn 1978.

Safbwyntiau • Gwleidyddiaeth • Diwylliant • Cymdeithas •
Golygydd cyffredinol: Daniel G. Williams



PAM NA FU CYMRU

METHIANT CENEDLAETHOLDEB CYMRAEG

Simon Brooks

CM 9781783162338 • £16.99

eLyfr 9781783162345

Pam na chafwyd mudiad cenedlaethol Cymreig yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg, a hithau'n oes o fudiadau cenedlaethol llwyddiannus mewn gwledydd bychain ar hyd a lled Ewrop? Pam na lwyddwyd i warchod y Gymraeg, a hithau'n iaith y mwyafrif llethol yma? Dyma rai o gwestiynau mawr hanes Cymru ac, yn groes i'r dybiaeth gyffredin mai peth llesol oedd hyn i genedlaetholdeb Cymreig, dangosir yn *Pam na fu Cymru* mai hyn oedd yr union reswm am ei fethiant.



'Y BLAID FFASGAIDD YNG NGHYMRU'

PLAID CYMRU A'R CYHUDDIAD O FFASGAETH

Richard Wyn Jones

CM 9780708326503 • £9.99

eLyfr 9780708326565

Ers degawdau clywyd cyhuddiadau cyson o du Cymry uchel eu parch fod cenedlaetholwyr Cymreig wedi cydymdeimlo â Ffasgaeth yn ystod dyddiau du y 1930au a'r Ail Ryfel Byd — cyhuddiad a fyddai'n pardduo enw unrhyw elyn gwleidyddol. Yn y gyfrol arloesol a dadleuol hon, mae sylwebydd gwleidyddol amlycaf Cymru yn pwysu a mesur gwirionedd y cyhuddiadau. Yn ogystal â bwrw goleuni newydd ar agweddau Plaid Cymru a'i harweinwyr yn ystod y cyfnod hanesyddol dan sylw, mae'r llyfr yn cyflwyno trafodaeth heriol ar natur diwylliant gwleidyddol y Gymru gyfoes.




RHOI CYMRU'N GYNTAF

SYNIADAETH PLAID CYMRU, CYFROL 1

Richard Wyn Jones

CM 9780708317563 • £9.99

Olirheinir yma ddatblygiad syniadaethol Plaid Cymru o'i geni ym misoedd gaeaf 1924–5 hyd at sefydlu Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn haf 1999. Trwy gyfrwng astudiaeth wreiddiol a heriol o gredoau gwleidyddol ei harweinwyr pwysicaf, cawn ddilyn ymdaith y Blaid o gyrion y llwyfan gwleidyddol hyd at drothwy'r Gymru ddatganoledig.




CYMRU FYDD, 1886–1896

Dewi Rowland Hughes

CC 9780708319864 • £7.99

Mae'r gyfrol hon yn adrodd hanes y gymdeithas wleidyddol gyntaf a ymgrychodd dros hunanreolaeth i Gymru. Manylir ar dyfiant Rhyddfrydiaeth a'r adfywiad cenedlaethol yng Nghymru o 1832 ymlaen, yn ogystal â datblygiad cymdeithasau gwleidyddol a sefydlwyd gan Gymry Cymraeg mewn dinasoedd Seisnig yng nghanol y 1880au.



CYMRU'R GYFRAITH


SYLWADAU AR HUNANIAETH GYFREITHIOL

R. Gwynedd Parry

CM 9780708325148 • £19.99

eLyr 9780708325193

Mae'r gyfrol hon yn gwyntyllu'r cysyniad o hunaniaeth gyfreithiol Gymreig. Bu esblygiad y cysyniad a'i weithredu'n ymarferol yn destun trafod o fewn y gymuned gyfreithiol ers sefydlu Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn 1999. Bathwyd ymadrodd i grisialu'r broses, sef 'Cymru'r Gyfraith', ac mae'r gyfrol hon yn ystyried ac yn dadansoddi rhai o'r prif bynciau sydd wedi meithrin y syniad o hunaniaeth gyfreithiol Gymreig, a'r ffactorau sydd yn ysgogi ei ddatblygiad.



IAITH LAFAR BRYCHEINIOG

ASTUDIAETH O'I FFONOLEG A'I MORFFOLEG

Glyn E. Jones

CC 9780708316405 • £7.99

Dyma gyflwyniad manwl o ffonoleg a morffoleg iaith lafar Sir Frycheiniog, sy'n canolbwyntio'n arbennig ar gyfoeth cynhenid yr iaith Gymraeg ymhlith trigolion mynydd Epynt a anwyd rhwng 1870–1917, ac a orfodwyd gan y Weinyddiaeth Amddiffyn i adael eu cartrefi yn 1940.

HANES CYMRU YN Y CYFNOD MODERN CYNNAR, 1530–1760

Geraint H. Jenkins

CM 9780708309988 • £7.50

Dyma gyflwyniad i hanes Cymru yn ystod y cyfnod rhwng y Deddfau Uno a'r Chwyldro Diwydiannol. Ymdrinnir â'r cyfnewidiadau cymdeithasol ac economaidd, gan roi sylw arbennig i uno Cymru a Lloegr, twf Protestaniaeth yn ystod y cyfnod, a'r cynnydd mewn addysg.



ADFEILION BABEL

AGWEDDAU AR SYNIADAETH IEITHYDDOL Y DDEUNAWFED GANRIF

Caryl Davies

CC 9780708315705 • £30.00

Astudiaeth gynhwysfawr ar hanes syniadaeth ac agweddau ieithyddol yng Nghymru yn ystod y ddeunawfed ganrif yw'r gyfrol hon. Mae'n manylu ar gyfraniad cyfoethog ysgolheigion Cymru i ddatblygiadau ym maes ieithyddiaeth yn Ewrop trwy godi ymwybyddiaeth o'r ieithoedd Celtaidd a'u perthynas â ieithoedd eraill y cyfandir.

'EU HIAITH A GADWANT'?

Y GYMRAEG YN YR UGEINFED GANRIF

*Golygwyd gan Geraint H. Jenkins
a Mari A. Williams*

CM 9780708316573 • £9.99

Dyma ddadansoddiad treiddgar ar hanes cymdeithasol yr iaith Gymraeg yn ystod yr ugeinfed ganrif, gan ddadlennu ymchwil drwyadl i agweddau negyddol a chadarnhaol ar yr iaith Gymraeg mewn meysydd llenyddol a chrefyddol, gwleidyddol a chyfreithiol, addysgol a diwylliannol.


PRIFYSGOL BANGOR, 1884–2009

David Roberts

CC 9780708322307 • £9.99

eLyfr 9780708322819

Mae'r gyfrol hon yn ymwneud ag un o sefydliadau addysg uwch pwysicaf Cymru, yn cwmpasu ei hanes o'i greu yn 1884 fel Coleg Prifysgol Gogledd Cymru, ei ymgnawdoliad fel Prifysgol Cymru, Bangor, a'i ben-blwydd yn 125 oed yn 2009.



BRWYDR I BARADWYS?

Y DYLANWADAU AR DWF YSGOLION CYMRAEG DE-DDWYRAIN CYMRU

Huw S. Thomas

CC 9780708322970 • £19.99

eLyfr 9780708322987

Yn y gyfrol arloesol hon, dadansoddir y dylanwadau niferus, amlhaenog a chydadweithiol ar dwf rhyfeddol ysgolion Cymraeg de-ddwyrain Cymru. Nid hanes a geir yma, ond astudiaeth amlddisgyblaethol ieithyddol, gymdeithasol, seicolegol, wleidyddol ac addysgol — gan gynnwys dadansoddiad o'r brwydro a fu, ac a oedd efallai'n bennaf gyfrifol am wrthdroi'r newid ieithyddol.



'DYN HEB EI GYFFELYB YN Y BYD'

OWAIN MYFYR A'I GYSYLLTIADAU LLENYDDOL

Geraint Phillips

CC 9780708323243 • £19.99

Y llyfr hwn yw'r cofiant cyntaf i Owain Myfyr, un o'r cymwynaswyr mwyaf yn hanes y diwylliant Cymraeg — gŵr a ddisgrifiwyd gan ei gyfaill Iolo Morganwg fel 'dyn heb ei gyffelyb yn y byd', ac yntau'n un o sylfaenwyr Cymdeithas y Gwyneddigion yn Llundain, ymhell o'i fro mebyd yn Llanfihangel Glyn Myfyr.


IAITH CARREG FY AELWYD

IAITH A CHYMUNED YN Y BEDWAREDD GANRIF AR BYMTHYG

Golygwyd gan Geraint H. Jenkins

CM 9780708314623 • £9.99

Mae'r gyfrol yma'n egluro'r berthynas gymhleth rhwng iaith a chymuned yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg estynedig, yng nghyd-destun profiad rhai o ieithoedd canolbarth Ewrop. Ceir ynddi bedair ysgrif ar ddeg, ynghyd â mapiau a ffigyrau esboniadol.



CASTELL CAERFYRDDIN

OLRHAIN HANES LLYWODRAETHIANT

Neil Ludlow

CC 9781783160464 • £34.99

eLyfr 9781783160471

Castell Caerfyrddin yw un o gestyll mwyaf pwysig ond lleiaf adnabyddus Cymru, a dyma gyfrol sy'n archwilio hanes a datblygiad y ganolfan lywodraethol hon o'r cyfnod canoloesol hyd heddiw. Roedd swyddogaeth y castell yn effeithio ar Gymru gyfan, ac mae'r llyfr yma'n gosod Castell Caerfyrddin yn ôl ym myw hanes Cymru'r Oesoedd Canol.

Enillydd Gwobr G. T. Clark, Cymdeithas Hynafiaethau Cymru, yng nghategori Hanes ac Archeoleg Canoloesol Cymru a'r Gororau, 2018.



HANES PRYDAIN, 1914–1964

Geraint Lewis Jones

CC 9780708309728 • £9.99

Cyflwynir amlinelliad yma o hanes Prydain dros y pum degawd a ddilynodd ddechrau'r Rhyfel Mawr. Edrychir ar y prif ddatblygiadau a welwyd yn ystod y cyfnod hwn, gan sylwi ar batrwm gwaith y bobl, grym a statws milwrol y wlad, a'r math o bleidiau a fu'n llywodraethu'r deyrnas.



CYFRI'R DA

HANES CANMLYNEDD CYMDEITHAS
AMAETHYDDOL FRENHINOL CYMRU

David W. Howell

CC 9780708318416 • £6.99

Ceir yn y gyfrol hon hanes cynhwysfawr sefydlu Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru yn 1904. Orlheinir twf a datblygiad y gymdeithas yn wyneb gwrthwynebiad cynnar, ynghyd â llwyddiant y Sioe Amaethyddol flynyddol.

Gwerslyfrau ar gyfer disgyblion

SIARL I A'I FYD

Robert M. Morris

CM 9780708309520 • £4.99

HITLER A'R NATSÏAID

Einiona Bebb

CCM 9780708309391 • £4.99

JOHN F. KENNEDY

Robert M. Morris

CM 9780708308363 • £4.99

CYFOETHOGI'R CYFATHREBU

LLAWLYFR YMARFEROL I DIWTORIAID CYMRAEG I OEDOLION

Golygwyd gan Christine Jones a Steve Morris


CM 9781783169085 • £24.99

eLyfr 9781783169092

Mae'r gyfrol hon ar gyfer tiwtoriaid sy'n addysgu Cymraeg i oedolion neu sy'n astudio cwrs yn y brifysgol ar sut i addysgu Cymraeg i oedolion. Mae'n cynnwys llawer o syniadau ymarferol gan diwtoriaid profiadol ar sut y gellid cynorthwyo pobl i siarad a defnyddio'r iaith Gymraeg mewn dosbarthiadau iaith ac mewn sefyllfaoedd anffurfiol.

'Dyma gyfrol anhepgorol i'r sawl sy'n ymddiddori ym maes Cymraeg i oedolion. Mae'n cloriannu arbenigedd y rhai sydd wedi gwneud cyfraniad enfawr i'r maes dros y degawdau diwethaf.'

Dr Elin Meek




CYMRAEG YN Y GWEITHLE

Rhiannon Heledd Williams

CM 9781786832764 • £17.99

eLyfr 9781786832771

Dyma lawlyfr ymarferol sy'n datblygu sgiliau iaith yn y gweithle. Mae'n cynnwys adran am y broses ymgeisio am swydd, amrywiaeth o dasgau byd gwaith a sefyllfaoedd sy'n codi yn y gweithle. Mae'n addas ar gyfer unrhyw un sy'n bwriadu defnyddio'r Gymraeg yn eu gwaith neu'n dymuno magu hyder wrth gyfathrebu ar lafar ac yn ysgrifenedig, gyda chyfarwyddiadau, enghreifftiau a phatrymau i'w hefelychu, tasgau ac ymarferion a phwyntiau trafod. Nid cyfrol ramadeg sydd yma, ond llawlyfr hylaw sy'n canolbwyntio ar ddefnyddio'r iaith mewn cyd-destun proffesiynol — canllaw defnyddiol ar gyfer gweithlu cyfoes yr 21ain ganrif.






GWYDDONIADUR CYMRU YR ACADEMI GYMREIG

Golygwyd gan John Davies, Menna Baines, Nigel Jenkins a Peredur I. Lynch

CC 9780708319543 • £25.00

Gwyddoniadur Cymru yw cyfeirlyfr mwyaf cynhwysfawr Cymru, yn cynnwys cofnodion awdurdodedig ar y wlad a'i phobl, ei chyfoeth diwylliannol a hanesyddol. Cloriennir yn y *Gwyddoniadur* rychwant rhyfeddol o wybodaeth, o uchelfannau Eryri i ddyfnderoedd pyllau glo'r de, o Gymru i gyfandiroedd pellennig, gan adrodd rhagoriaethau celfyddydol, gwyddonol a gwleidyddol ein gwlad. Dyma'r tro cyntaf i'r holl ddeunydd yma gael ei gynnwys mewn un cyfrol, gyda thros 5,000 o gofnodion a thros 300 o luniau.



TERMAU GWAITH COED

CM 9780708300299 • £4.99



BETH YW'R GAIR AM ... ? GEIRIADUR Â LLUNIAU

Carol Williams

CM 9780708317365 • £6.99

Dyma'r geiriadur poblogaidd ar gyfer plant a dysgwyr y Gymraeg, yn cynnwys dros 1,500 o gyfieithiadau ynghyd â ffurfiau wedi'u treiglo.



GEIRIADUR YR ACADEMI

Golygydd: Bruce Griffiths
Golygydd Cyswllt: Dafydd Glyn Jones

CC 9780708311868 • £55.00

Dyma'r geiriadur Saesneg–Cymraeg mwyaf cynhwysfawr erioed. Mae'n agor y drws i gyfoeth y Gymraeg wrth iddi addasu at ofynion meysydd newydd megis masnach a gweinyddiaeth, addysg a'r cyfryngau torfol.




GRAMADEG Y GYMRAEG

Peter Wynn Thomas

CM 9780708313459 • £19.99

Dyma'r dadansoddiad llawnaf a thrylwyr a fu erioed o'r Gymraeg, y gramadeg cyntaf i ymdrin ag amrywiadau arddulliol yr iaith – o'r ffurfiol i'r anffurfiol, o'r cyfredol i'r hynafol, ac o'r safonol i'r ansafonol.



GEIRIADUR IDIOMAU

Lluniwyd gan Alun Rhys Cownie
Golygydd Cyswllt: Wyn G. Roberts

CM 9780708316566 • £12.99

Dyma eiriadur o idiomau, o'r Gymraeg i'r Saesneg ac o'r Saesneg i'r Gymraeg, ar gyfer dysgwyr y Gymraeg a Chymry Cymraeg brodorol fel ei gilydd. Ceir yn y gyfrol dros 12,000 o idiomau sy'n cyfoethogi'r iaith Gymraeg, i'w defnyddio ar lafar ac yn ysgrifenedig.

CRYNO-DDYSG Y CYMRY

DIARHEBION AC IDIOMAU I DDYSGWYR

Cennard Davies

CM 9780708317754 • £6.99

Bwriad y gyfrol hylaw hon yw cyflwyno i ddysgwyr profiadol un rhan o gyfoeth yr iaith, sef ei diarhebion — yr ymadroddion neu ddywediadau bachog o ddoethineb sy'n britho iaith bob dydd, sef cryno-ddysg y Cymry. Dewiswyd llawer o'r diarhebion a glywir yn weddol aml a'u gosod mewn deialog er mwyn goleuo ac egluro eu defnydd. Ceir yma'n ogystal restr o idiomau ac ymadroddion idiomatig, ynghyd â geirfa bwrpasol i hwyluso'r darllen.

TRAETHODAU YMCHWIL CYMRAEG A CHYMREIG, 1887–1996

CC 9780708312100 • £39.99

Dwyieithog

Rhestr gyflawn o holl draethodau ymchwil o ddiddordeb Cymreig a graddau uwch Cymraeg a dderbyniwyd gan brifysgolion y Deyrnas Unedig, yr Almaen, Awstralia, Awstria, Canada, Ffrainc, Iwerddon a'r Unol Daleithiau yn y cyfnod 1887–1996.

MYNEGAI I FWLETIN Y BWRDD GWYBODAU CELTAIDD

Golygwyd gan Simon Rodway

CM 9780708318126 • £35.00

Dwyieithog

Mynegai cynhwysfawr i'r deugain cyfrol o'r cyfnodolyn a gyhoeddwyd rhwng 1921 a 1993.

LLÊN CYMRU

*Golygir Llên Cymru yn Ysgol y Gymraeg,
Prifysgol Caerdydd*

Cyhoeddir yn flynyddol ym mis Rhagfyr

ISSN Print: 00760188 ISSN Ar-lein: 20585071

Sefydliadau

Print yn unig £31.00

Ar-lein yn unig £31.00

Y ddau £51.50


Unigolion

Print yn unig £15.50

Ar-lein yn unig £15.50

Y ddau £20.50

Gellir darllen holl gyfnodolion Gwasg Prifysgol Cymru, ac
eithrio *International Journal of Welsh Writing in English*, ar
IngentaConnect: <http://www.ingentaconnect.com/content/uwp>





INTERNATIONAL JOURNAL OF WELSH WRITING IN ENGLISH

*Golygyddion: Matthew Jarvis, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant;
Neal Alexander, Prifysgol Aberystwyth*

Gellir darllen erthyglau'r cyfnodolyn ar wefan ijwwe.uwp.co.uk

Mae Llyfrgell Agored y Dyniaethau mewn partneriaeth gyda Gwasg Prifysgol Cymru yn cyhoeddi'r *International Journal of Welsh Writing in English* fel cyfnodolyn mynediad agored aur. Mae'r cyfnodolyn yn cael ei gyflwyno ar blatfform Llyfrgell Agored y Dyniaethau.



JOURNAL OF CELTIC LINGUISTICS

*Golygydd: Simon Rodway,
Prifysgol Aberystwyth*

Cyhoeddir yn flynyddol ym mis Ionawr

ISSN Print: 09621377 ISSN Ar-lein: 20585063

Sefydliadau

Print yn unig **£51.50**
Ar-lein yn unig **£51.50**
Y ddau **£92.50**

Unigolion

Print yn unig **£31.00**
Ar-lein yn unig **£31.00**
Y ddau **£51.50**



THE JOURNAL OF RELIGIOUS HISTORY, LITERATURE AND CULTURE

*Golygyddion: William Gibson, Prifysgol Oxford Brookes;
John Morgan-Guy, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant*

Cyhoeddir ddwywaith y flwyddyn yn yr haf a'r hydref
ISSN Print: 20574517 ISSN Ar-lein: 20574525

Sefydliadau

Print yn unig £95.00
Ar-lein yn unig £85.00
Y ddau £140.00

Unigolion

Print yn unig £25.00
Ar-lein yn unig £20.00
Y ddau £40.00



CYLCHGRAWN HANES CYMRU

*Golygyddion: Huw Pryce, Prifysgol Bangor; Paul O'Leary, Prifysgol Aberystwyth
Golygydd Adolygiadau: Martin Wright, Prifysgol Caerdydd*

Cyhoeddir ddwywaith y flwyddyn ym misoedd Mehefin a Rhagfyr ISSN Print: 00432431 ISSN Ar-lein: 0083792X

Sefydliadau

Print yn unig £51.50
Ar-lein yn unig £51.50
Y ddau £92.50

Unigolion

Print yn unig £31.00
Ar-lein yn unig £31.00
Y ddau £51.50



CYLCHGRAWN ADDYSG CYMRU

Golygyddion: David Egan, Prifysgol Metropolitan Caerdydd; Russell Grigg, Gweinyddiaeth Addysg yr Emiraethau Arabaidd Unedig. Golygydd Adolygiadau: Jane Waters, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant

Cyhoeddir ddwywaith y flwyddyn ym misoedd Mawrth a Thachwedd ISSN Print: 20593708 ISSN Ar-lein: 20593716

Sefydliadau

Print yn unig	£45.00
Ar-lein yn unig	£40.00
Y ddau	£75.00

Unigolion

Print yn unig	£25.00
Ar-lein yn unig	£20.00
Y ddau	£35.00



STUDIA CELTICA

Golygyddion: Dafydd Johnston, Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru; Dr Penny Dransart, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant; Dr Karen Stöber, Universitat de Lleida; John T. Koch, Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru

Cyhoeddir yn flynyddol ym mis Rhagfyr ISSN Print: 00816353 ISSN Ar-lein: 20585098

Sefydliadau

Print yn unig	£51.50
Ar-lein yn unig	£51.50
Y ddau	£92.50

Unigolion

Print yn unig	£26.00
Ar-lein yn unig	£26.00
Y ddau	£41.00

SUT I ARCHEBU

Gwefan: www.gwasgprifysgolcymru.org

CYMRU

Cyngor Llyfrau Cymru
Y Ganolfan Ddosbarthu
Parc Menter Glanyrafon
Llanbadarn Fawr
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3AQ

Ffôn: 01970 624455

Ebost: canolfan.ddosbarthu@cllc.org.uk

Gwefan: www.gwales.com

DOSBARTHU CYFNODOLION

Turpin Customer Services
Pegasus Drive
Stratton Business Park
Biggleswade
Bedfordshire
SG18 8TQ

Ffôn: +44 (0) 1767 604 4951

Ebost: custserv@turpin-distribution.com

Mae eLyfrau Gwasg Prifysgol Cymru yn cael eu dosbarthu gan NBN Fusion

DU (HEB GYNNWYS CYMRU) AC IWERDDON

NBN International Orders Department
Airport Business Centre
10 Thornbury Road
Plymouth
PL6 7PP

Ffôn: +44 (0) 1752 202301

Ebost: orders@nbninternational.com

Gwefan: www.nbninternational.com